Nodyn i'r Cyfryngau

29 Mehefin 2010

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

Bwrdd Addysgu Iechyd Powys: Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) Diwygiedig 2006 (IR(ME)R)

Heddiw (Dydd Mawrth 29 Mehefin 2010), cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei hadroddiad ar yr arolygiad a gynhaliodd o gydymffurfiaeth Ysbyty Coffa Fictoria, Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog ac Ysbyty Cymuned Ystradgynlais â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) Diwygiedig 2006 (IR(ME)R).

Diben y rheoliadau yw:

- Amddiffyn cleifion rhag datguddiad anfwriadol, gormodol neu anghywir i ymbelydredd a sicrhau, ym mhob achos, bod y risg o'r datguddiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol.

- Sicrhau na chaiff cleifion fwy o ddatguddiad nag sydd ei angen er mwyn cael y budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau technoleg bresennol.

- Amddiffyn gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil meddygol neu fiofeddygol, diagnostig neu therapiwtig a'r rhai hynny sy'n cael datguddiadau meddygol-gyfreithiol.

Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan AGIC www.hiw.org.uk